# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cosmeticlinic

Dyddiad arolygu: 2 Awst 2018

Dyddiad cyhoeddi: 5 Tachwedd 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@gov.wales**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.hiw.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78964-051-9



(h) Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad .................................................................................. 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ................................................................................. 8

Ansawdd profiad y claf ..................................................................................9

Darparu gofal diogel ac effeithiol ..................................................................13

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ..........................................................19

4. Beth nesaf? ....................................................................................................... 21

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol ............................................. 23

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ...........24

Atodiad B – Cynllun gwella..............................................................................25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Trwy ein gwaith ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cosmeticlinic ar 2 Awst 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd Cosmeticlinic yn gwneud ymdrech i sicrhau y caiff cleifion eu trin ag urddas a pharch ac yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am eu triniaeth.

Fodd bynnag, rydym wedi gwneud ychydig o argymhellion i'r lleoliad eu hystyried a/neu eu gweithredu er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau i gyd a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. O ganlyniad i hyn, cyhoeddwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio gennym.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn breifat gan barchu eu hurddas
- Roedd yr ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Roedd y gwasanaeth yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen diweddaru'r canllaw i gleifion
- Roedd angen i'r gwasanaeth roi proses ar waith ar gyfer adolygu a lledaenu adborth gan gleifion
- Roedd angen diweddaru'r polisi diogelu oedolion
- Rhoi tystiolaeth i AGIC fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal, ynghyd â'r gwiriad gwifrau trydanol, sydd i'w gynnal bob 5 mlynedd.
- Y rheolau lleol i'w diweddaru a'u harwyddo gan y gweithredwr.

Gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r materion canlynol:

- Nid yw'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r triniaethau a ddarperir yn gywir
- Nid oedd y gwasanaeth yn gallu darparu tystiolaeth fod cofnodion hanes meddygol yn cael eu gwirio na'u diweddaru
- Nid oedd gan y gwasanaeth Gynghorydd Diogelu rhag Laserau enwebedig wedi'i ardystio
- Nid oedd y gwasanaeth yn gallu darparu tystiolaeth fod Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r cyfarpar a'r amgylchedd, nac wedi adolygu'r asesiad risg amgylcheddol.
- Nid oedd y gwasanaeth yn gallu darparu tystiolaeth fod y cyfarpar wedi'i wasanaethu a'i galibradu'n unol â chanllawiau'r gwneuthurwr

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid oedd AGIC wedi cael sicrwydd digonol ynghylch y camau a gymerwyd i wneud y gwelliannau sydd eu hangen.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Cosmeticlinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yng Nghanolfan Iechyd Bedwas, East Avenue, Bedwas, Caerffili CF83 8AE.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 23 Chwefror 2012.

Dim ond y rheolwr cofrestredig y mae'r gwasanaeth yn ei gyflogi.

Darperir ystod o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Gwaredu blew
- Adfywio'r croen
- Gwaredu tatŵau
- Pigmentiad y croen

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym bod y gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn modd sy'n parchu eu hurddas.

Mae angen i'r gwasanaeth roi proses ar waith ar gyfer adolygu a lledaenu adborth gan gleifion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 2 holiadur. Cafwyd sylw gan un claf:

*Yn fodlon iawn ar bob agwedd ar y driniaeth*

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod gofyn i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn i'r driniaeth ddechrau. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn gofyn ar lafar ynghylch unrhyw newidiadau ym mhob apwyntiad dilynol er mwyn helpu i wneud yn siŵr fod y driniaeth yn cael ei darparu mewn ffordd ddiogel, ond nad oedd hyn yn cael ei gofnodi. Ymdriniwyd â hyn drwy gyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Cadarnhaodd y ddau glaf a gwblhaodd yr holiadur eu bod bob amser yn llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn cadarnhau eu hanes meddygol, cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

### Urddas a pharch

Dywedodd y ddau glaf a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod bob amser yn cael eu trin ag urddas a pharch wrth ymweld â'r gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym bod y drws i'r ystafell driniaeth wedi'i gloi yn ystod y driniaeth a bod cleifion yn cael llonydd i dynnu eu dillad os oedd angen. Gwnaed hyn er mwyn cynnal urddas cleifion cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth. Roedd y ddau glaf a gwblhaodd yr holiadur o'r farn y gallent bob amser gynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster yn ystod eu hapwyntiadau yn y clinig.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell ymgynghori y drws nesaf i'r ystafell driniaeth er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb gael eu clywed.

### Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn triniaeth laser. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig.

Gwelsom enghreifftiau ysgrifenedig o'r wybodaeth a ddarperir i'r cleifion ond rydym yn awgrymu bod angen ei diwygio i gynnwys mwy o wybodaeth am waredu tatŵau a'r lliwiau y gellir eu trin.

Gwnaethom adolygu cofnodion nifer o gleifion a nodwyd gennym nad oedd y claf wedi rhoi cydsyniad ysgrifenedig mewn rhai achosion, neu wedi arwyddo yn y man anghywir. Argymhellwn fod y gwasanaeth yn gwneud yn siŵr fod cydsyniad y cleifion yn cael ei gofnodi'n gywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth wneud yn siŵr y ceir cydsyniad y cleifion cyn pob triniaeth a bod hyn wedi'i gofnodi'n gywir

### Cyfathrebu'n effeithiol

Nodwyd gennym bod canllaw cleifion ar gael ar gais. Roedd fersiwn print bras ar gael hefyd. Rydym yn argymell bod copïau ychwanegol ar gael i gleifion a darpar gleifion eu cael heb orfod gofyn.

Roedd y canllaw yn cynnwys y wybodaeth hanfodol sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau ond byddem yn argymell ei fod yn cael ei ddiweddaru i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC.

Roedd datganiad o ddiben[1] ar gael, ac roedd yn cynnwys y wybodaeth ofynnol yn ôl y cyfarwyddyd yn y rheoliadau ond roedd angen ei ddiwygio i adlewyrchu'r triniaethau a ddarperir gan y clinig ar hyn o bryd. Ymdriniwyd â hyn drwy gyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod copïau ychwanegol o'r daflen gwybodaeth i gleifion ar gael i gleifion a darpar gleifion eu cael heb orfod gofyn

Dylid diwygio'r daflen gwybodaeth i gleifion er mwyn cynnwys manylion cyswllt cyfredol AGIC. Dylid cyflwyno'r canllaw i gleifion wedi'i ddiweddaru i AGIC.

## Cynllunio a darparu gofal

Cafodd pob claf apwyntiad ymgynghori cyn dechrau ar y driniaeth. Cafodd y rhain eu cofnodi ar ffurflenni papur a gafodd eu llofnodi a'u dyddio ac a oedd yn cynnwys asesiad o'r math o groen a thrafodaeth am risgiau a manteision triniaeth. Gwelsom enghreifftiau o ddogfennau gwybodaeth a dogfennau ôl-ofal, a oedd yn cynnwys y risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r driniaeth.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf clytiau cyn cael ei drin yn ogystal â chyngor ôl-ofal yn dilyn y driniaeth. Cadarnhaodd y cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael prawf clytiau er mwyn sicrhau bod y laser yn cael ei osod yn ddiogel ac effeithiol o ystyried y math o groen a blew sydd ganddynt cyn iddynt gael triniaeth.

Nodwyd gennym bod y gwasanaeth yn cadw cofrestr o driniaethau ar gyfer pob peiriant. Roedd y cofnodion wedi'u cwblhau fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau

[1] Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

ond rydym yn argymell bod y gweithredwr yn sicrhau bod nifer y pigiadau a pharamedrau perthnasol yn cael eu cofnodi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y gwasanaeth i gofnodi nifer y pigiadau a pharamedrau perthnasol ar gyfer pob triniaeth yn y gofrestr o driniaethau.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Lleolwyd y gwasanaeth ar y llawr cyntaf ac ni fyddai'n hygyrch i gleifion â phroblemau symudedd. Dywedwyd wrthym fod unrhyw ddarpar gleifion yn cael gwybod am hyn, naill ai ar y ffôn neu yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol y gellid ei gynnal mewn ystafell ymgynghori yn y ganolfan iechyd ar y llawr daear.

### Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn gofyn i'r cleifion gwblhau holiadur. Dywedwyd wrthym fod yr holl ganlyniadau yn cael eu hadolygu ond nad ydynt yn cael eu cynnwys yn ffolder gwybodaeth i gleifion. Rydym yn argymell bod y gwasanaeth yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybod am ganlyniadau unrhyw adborth drwy gyfrwng crynodeb yn y canllaw i gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth gynnwys crynodeb o adborth cleifion yn y canllaw i gleifion.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd rhai systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl.

Roedd yr ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus ond roedd angen i'r gwasanaeth roi amserlen lanhau ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod y tasgau yn cael eu cwblhau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i ddiogelu iechyd a sicrhau diogelwch a llesiant staff a chleifion, ond roedd angen diwygio'r polisi diogelu oedolion.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Darperir y gwasanaeth ar lawr cyntaf yr adeilad, gyda chanolfan iechyd yn gweithredu ar y llawr daear.

Roedd rhai trefniadau ar waith i ddiogelu'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth a'r bobl a oedd yn ymweld ag ef a sicrhau eu llesiant.

Gwnaethom nodi nad oedd rhan isaf y canllaw ar y prif risiau i'r clinig heb ei glymu i'r wal. Cafodd hyn ei gynnwys yn yr hysbysiad diffyg cydymffurfio a gyflwynwyd i'r gwasanaeth.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer y safle. Ni welsom dystiolaeth fod Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Argymhellwn fod hyn yn cael ei unioni er mwyn diogelu'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth a'r bobl sy'n ymweld ag ef, a sicrhau eu llesiant.

Darparwyd i ni'r dystysgrif diogelwch nwy flynyddol ond nid oedd y gwasanaeth yn gallu darparu ardystiad i ddangos bod y gwiriadau gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad yn gyfredol, ac rydym yn argymell bod hwn yn cael ei anfon at AGIC.

Gwelsom fod llyfr driliau tân yn yr ystafell driniaeth ond nid oedd unrhyw ddriliau wedi'u cofnodi ers 2016. Dywedwyd wrthym fod rheolwr practis y ganolfan iechyd yn goruchwylio'r trefniadau diogelwch tân. Gwelsom fod contract cynnal a chadw ar waith gyda'r gwasanaeth tân, a dywedwyd wrthym ei fod yn berthnasol i'r ganolfan iechyd a'r clinig. Ond ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y diffoddwyr tân yn y clinig wedi'u profi. Nodwyd gennym fod arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael ar gyfer y gwasanaeth. Daethpwyd â hwn i fyny o'r ganolfan iechyd bob tro roedd cleient yn dod i'r clinig. Roedd y cynhwysion o fewn eu dyddiadau defnyddio ac yn addas at eu diben ac eithrio'r Glucogel a oedd wedi mynd heibio ei ddyddiad defnyddio. Cafodd y rheolwr cofrestredig wared arno cyn gynted ag y tynnwyd ei sylw ato. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig, a oedd yn ymarferwr cyffredinol a oedd yn gweithio yn y ganolfan iechyd, ei fod wedi cael yr hyfforddiant cymorth cyntaf priodol, ond nid oedd yn gallu darparu tystysgrif i ddangos hyn.

Nodwyd gennym bod gan y practis bolisi rheoli risg.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd cyfleusterau i waredu cynhyrchion mislif yn y toiled. Argymhellwn fod hyn yn cael ei unioni.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellir bod y practis yn trefnu i brofion dyfeisiau cludadwy gael eu cynnal.

Dylai'r gwasanaeth gyflwyno tystiolaeth i AGIC fod y gwiriad gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad wedi'i gynnal.

Dylai'r gwasanaeth gyflwyno tystiolaeth i AGIC fod y contract cynnal a chadw tân yn cynnwys y clinig a bod y diffoddwyr tân wedi'u gwasanaethu.

Mae angen i'r gwasanaeth gynnal driliau tân rheolaidd a chadw cofnod ohonynt.

Dylai'r gwasanaeth gyflwyno copi o'r asesiad risg tân i AGIC.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ganddo becyn cymorth cyntaf yn y clinig bob amser a bod ei gynnwys yn gyfredol.

Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno copi o'i dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol i AGIC.

Dylai'r gwasanaeth drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn y toiled.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn daclus. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn cael ei lanhau gan y glanhawyr a gyflogir gan y ganolfan iechyd. Nid oedd amserlen lanhau yn cael ei chadw ac argymhellwn fod un yn cael ei rhoi ar waith.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig yn fanwl y trefniadau ar gyfer rheoli haint a gwelsom fod polisi rheoli haint ar waith.

Nodwyd gennym fod gwastraff yn cael ei storio a'i gasglu gyda gwastraff y ganolfan iechyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth roi amserlen lanhau ar waith.

### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn cydymffurfio â hyn.

Roedd polisi ar gyfer diogelu oedolion ar waith. Nid oedd yn nodi gweithdrefn glir i'w dilyn pe bai pryder o ran diogelu, ac nid oedd chwaith yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu lleol perthnasol. Mae angen cynnwys y rhain.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n asesu gallu claf i gydsynio i driniaeth a sut y byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â diogelu. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi dilyn hyfforddiant priodol o ran diogelu oedolion agored i niwed ond nid oedd ganddo'r dystysgrif ar ddiwrnod yr arolygiad. Cytunodd i ddarparu copi ohoni i AGIC ar ôl yr arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth ddiwygio ei bolisi diogelu oedolion i gynnwys gweithdrefn glir i'w dilyn pe bai pryder o ran diogelu a manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu lleol perthnasol.

Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno copi o'i dystysgrif gyfredol i AGIC i gadarnhau ei fod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ni welsom dystiolaeth fod y peiriant laser wedi'i galibradu[2] a'i wasanaethu'n rheolaidd yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Ymdriniwyd â hyn drwy gyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. Yn dilyn yr arolygiad, anfonodd y rheolwr gopi o ffurflen adrodd ar wasanaethau'r gweithgynhyrchwr.

Gwelsom fod protocol triniaeth ar waith ar gyfer y peiriant laser a'i fod yn cael ei oruchwylio gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod contract ar waith gyda chwmni i ddarparu cymorth Diogelu rhag Laserau ond nid oedd Cynghorydd Diogelu rhag Laserau enwebedig. Dywedwyd wrthym fod Cynghorydd Diogelu rhan Laserau wedi adolygu'r clinig a'r ystafell driniaeth yn rhithwir yn 2017 ond nid oedd unrhyw ddogfennaeth i gefnogi hyn. Ymdriniwyd â hyn drwy gyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y rheolau lleol[3], yn rhoi manylion am weithredu'r peiriant yn ddiogel, wedi'u hadolygu gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, ac nid oedd y rheini a oedd ar gael ar adeg yr adolygiad yn gyfredol, er eu bod wedi'u harwyddo gan y rheolwr cofrestredig a oedd yn gweithredu'r peiriant laser, gan nodi ei fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn cytuno i gadw atynt. Ymdriniwyd â hyn drwy gyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom y dystysgrif i ddangos bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[4]. Gan fod yr hyfforddiant Craidd Gwybodaeth

---

[2]Gall calibradu rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn parhau'n gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad gorau ac allbwn o'r ansawdd uchaf.

[3] Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

[4] Anelir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth at weithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau IPL ar gyfer amrywiol driniaethau croen. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar sut i ddefnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel.

wedi'i gwblhau yn 2009, byddem yn cynghori'r gweithredwr i ystyried dilyn hyfforddiant gloywi).

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y peiriant laser. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Roedd arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn nodi pryd roedd y peiriannau laser yn cael eu defnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw dan glo bob amser a bod y plwg yn cael ei dynnu o'r soced pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laser wedi cwblhau asesiad risg ac rydym yn argymell bod y rheolwr yn gwneud cais am gopi o adroddiad y Cynghorydd Diogelu rhag Laser. Cafodd hyn ei gynnwys yn yr hysbysiad diffyg cydymffurfio a gyflwynwyd i'r gwasanaeth.

Gwnaethom nodi ar adeg yr arolygiad fod nifer o gemegau a stoc feddygol yn cael eu cadw yn yr ystafell driniaeth, a bod rhai ohonynt wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio. Rydym yn argymell bod y rheolwr cofrestredig yn cael gwared ar y stoc sydd wedi mynd heibio'i ddyddiad defnyddio yn briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth gael gwared ar yr y stoc sydd wedi mynd heibio'i dyddiad defnyddio yn briodol.

### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom nad oedd gan y gwasanaeth systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau. Roedd y gwasanaeth yn ceisio adborth gan gleifion yn dilyn triniaeth. Argymhellwn ei fod yn rhoi cyfres o archwiliadau sicrhau ansawdd ar waith, er enghraifft, ffeiliau cleifion, arsylwadau triniaethau ac archwiliadau digwyddiadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis roi rhaglen o archwiliadau sicrhau ansawdd ar waith.

### Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Wrth edrych ar sampl o nodiadau cleifion, gwelsom dystiolaeth fod nodiadau cleifion yn cael eu cadw i safon dda ond mae'n rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod pob blwch yn cael ei gwblhau ar adeg pob triniaeth i gadarnhau'r trafodaethau â'r claf, gan gynnwys diweddaru'r hanes meddygol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod y gweithredwr yn cwblhau pob blwch yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r trafodaethau â'r claf ar adeg pob triniaeth.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Cosmeticlinic ac yn ei reoli.

Roedd amrywiaeth o bolisïau ar waith a nodwyd gennym bod y rhain wedi'u hadolygu.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru ei dystysgrif datgelu a gwahardd.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Cosmeticlinic ac ef sy'n ei redeg. Nid oes unrhyw aelodau eraill o staff. Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith a oedd wedi'u hadolygu ddiwethaf yn 2015. Rydym yn awgrymu bod y gwasanaeth yn creu amserlen ar gyfer adolygu'r polisïau i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y dystysgrif yswiriant atebolrwydd yn gyfredol ac rydym yn argymell bod y gwasanaeth yn cyflwyno tystiolaeth bod y gwasanaeth yn cyflwyno tystiolaeth fod ganddo dystysgrif od ganddo dystysgrif gyfredol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth anfon copi o'i dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol at AGIC.

### Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn cwynion a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd manylion y weithdrefn cwynion wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben yn y canllaw i gleifion. Fel y

soniwyd yn flaenorol, mae angen diweddaru'r ddwy ddogfen er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Dywedwyd wrthym nad oedd y gwasanaeth wedi cael unrhyw gwynion hyd yma.

### Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y defnyddiwr awdurdodedig a oedd yn gweithredu'r peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ynghyd â'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Nid yw'r gwasanaeth yn cyflogi unrhyw aelodau o staff. Fel y defnyddiwr awdurdodedig, cafodd y rheolwr cofrestredig wiriad datgelu a gwahardd[5] yn 2015. Rydym yn argymell y caiff gwiriadau datgelu a gwahardd (ar lefel Uwch) yn cael ei hadnewyddu bob 3 blynedd i bob aelod o'r staff sydd â mynediad uniongyrchol heb oruchwyliaeth at gleifion er mwyn bodloni Rheoliad 19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gleifion gael eu diogelu rhag risgiau gofal neu driniaeth amhriodol neu anniogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gael gwiriad datgelu a gwahardd a chyflwyno tystiolaeth i AGIC fod ganddo dystysgrif gyfredol.

[5]Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Cosmeticlinic

### Dyddiad arolygu:2 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r gwasanaeth wneud yn siŵr y ceir cydsyniad y cleifion cyn pob triniaeth a bod hyn wedi'i gofnodi'n gywir | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>Rheoliad 23 | | | |
| Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod copïau ychwanegol o'r daflen gwybodaeth i gleifion ar gael i gleifion a darpar gleifion eu cael heb orfod | Rheoliadau Gofal Iechyd | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gofyn | Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Rheoliad 7 | | | |
| Dylid diwygio'r daflen gwybodaeth i gleifion er mwyn cynnwys manylion cyswllt cyfredol AGIC. Dylid cyflwyno'r canllaw i gleifion wedi'i ddiweddaru i AGIC. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Rheoliad 7 | | | |
| Y gwasanaeth i gofnodi nifer y pigiadau a pharamedrau perthnasol ar gyfer pob triniaeth yn y gofrestr o driniaethau. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliadau 23 (1) - (3) a 45(2)<br><br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru, Safonau 16 ac 20 | | | |
| Dylai'r gwasanaeth gynnwys crynodeb o adborth cleifion yn y canllaw i gleifion. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 7 | | | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Argymhellir bod y practis yn trefnu i brofion dyfeisiau cludadwy gael eu cynnal. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26<br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru, Safon 12<br><br>Canllawiau HSE | | | |
| Dylai'r gwasanaeth gyflwyno tystiolaeth i AGIC fod y gwiriad gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad wedi'i gynnal. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26<br><br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br><br>Safon 12 | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r gwasanaeth gyflwyno tystiolaeth i AGIC fod y contract cynnal a chadw tân yn cynnwys y clinig a bod y diffoddwyr tân wedi'u gwasanaethu. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26) Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 | | | |
| Mae angen i'r gwasanaeth gynnal driliau tân rheolaidd a chadw cofnod ohonynt. | | | | |
| Dylai'r gwasanaeth gyflwyno copi o'r asesiad risg tân i AGIC. | | | | |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ganddo becyn cymorth cyntaf yn y clinig bob amser a bod ei gynnwys yn gyfredol. | Canllawiau HSE – Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith | | | |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno copi o'i dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol i AGIC. | | | | |
| Dylai'r gwasanaeth drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn y toiled. | Canllawiau HSE – Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Gwaith | | | |
| Dylai'r gwasanaeth roi amserlen lanhau ar waith. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9 a 15<br><br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru, Safon 13 | | | |
| Dylai'r gwasanaeth ddiwygio ei bolisi diogelu oedolion i gynnwys gweithdrefn glir i'w dilyn pe bai pryder o ran diogelu a manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu lleol perthnasol. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 16 (1) (a) | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br><br>Safon 11. | | | |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno copi o'i dystysgrif gyfredol i AGIC i gadarnhau ei fod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 16 (1) (a)<br><br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | yng Nghymru<br>Safon 11. | | | |
| Dylai'r gwasanaeth gael gwared ar yr y stoc sydd wedi mynd heibio'i dyddiad defnyddio yn briodol. | Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br>Safonau 9 a 15 | | | |
| Dylai'r practis roi rhaglen o archwiliadau sicrhau ansawdd ar waith. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 19 (1) (a) (b)<br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br>Safon 6. | | | |
| Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod y gweithredwr yn cwblhau pob blwch yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r trafodaethau â'r claf ar adeg pob triniaeth. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 23 | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai'r gwasanaeth anfon copi o'i dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol at AGIC. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>Rheoliad 29 | | | |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig gael gwiriad datgelu a gwahardd a chyflwyno tystiolaeth i AGIC fod ganddo dystysgrif gyfredol. | Rheoliad 21 (2) Atodlen 2 (2) (b)<br>Safon 24. Arferion recriwtio a | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | chyflogi'r gweithlu | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):

## Teitl swydd:

## Dyddiad: